



# Nid hyfforddiant yn unig: ymarfer sy’n seiliedig ar gryfderau mewn gofal cymdeithasol

Esbonio sut i ddatblygu arferion sy'n seiliedig ar gryfderau yn eich sefydliad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 29 January 2025

Diweddariad olaf: 4 February 2025

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/canlyniadau-personol/sefydlur-dull-syn-canolbwyntio-ar-ganlyniadau/nid-

> hyfforddiant-yn-unig-ymarfer-syn-seiliedig-ar-gryfderau-mewn-gofal-cymdeithasol am y fersiwn diweddaraf.

**Esbonio sut i ddatblygu arferion sy'n seiliedig ar gryfderau yn eich sefydliad.**

## Ynglŷn â'r canllaw hwn

Ysgrifennon ni’r canllaw hwn gan ddefnyddio profiadau ac adborth pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r canllawiau'n esbonio:

- y sgiliau, gwybodaeth a gwerthoedd gwahanol sydd eu hangen ar weithwyr, rheolwyr ac arweinwyr
- sut i benderfynu pa hyfforddiant sy'n diwallu eich anghenion
- sut i sicrhau bod yr hyfforddiant o ansawdd uchel, ta waeth os yw'n cael ei redeg yn fewnol neu'n allanol.

Nid yw'n ganllaw cynhwysfawr ond gall fod yn fan cychwyn defnyddiol.

## Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sydd eisiau helpu eu sefydliadau i weithio mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnwys:

- arweinwyr
- rheolwyr comisiynu

- arweinwyr hyfforddiant y gweithlu.

## Pam rydyn ni wedi ysgrifennu'r canllaw hwn

Ysgrifennon y canllaw hwn i helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru i gael hyfforddiant, dysgu a datblygiad cyson o ansawdd uchel sy'n berthnasol i'w rôl a'u cyfrifoldebau.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd defnyddio model cydgynhyrchiol o ofal cymdeithasol sy'n seiliedig ar gryfderau.

Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o atebion sy'n cael eu harwain gan wasanaethau neu sy’n defnyddio adnoddau i ddatrys problemau.

Yn hytrach, dylen ni gweithio gyda chryfderau rhywun i'w helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Er bod llawer o dimau eisoes yn gweithio fel hyn, gall fod yn anodd sicrhau bod y ffordd hon o weithio yn gyson ar draws gwahanol sefydliadau.

Mae'r canllaw hwn yn rhoi strwythur i sefydliadau i'w gwneud yn haws gweithio gyda chryfderau, mewn ffordd realistig, hylaw a chyson.

Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau yn cefnogi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014), ac yn ein helpu i hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth.

Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Cymru, gan ganolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a chydweithio ag unigolion a'u teuluoedd.

Dysgwch fwy am arferion sy'n seiliedig ar gryfderau ym maes gofal cymdeithasol.

## Gweithio gyda sefydliadau eraill

Mae manteision i weithio gyda sefydliadau eraill i adeiladu diwylliannau sy'n seiliedig ar gryfderau mewn sefydliadau.

Os hoffech wybod mwy am hyn, e-bostiwch, cryfderau@gofalcymdeithasol.cymru

## Lle i ddechrau: dewis eich grŵp

Mae angen gwahanol lefelau o wybodaeth ar bobl, yn dibynnu ar eu rôl.

Mae'r canllaw hwn yn rhannu rolau yn dri grŵp, i'ch helpu i benderfynu sut i ddatblygu arferion sy'n seiliedig ar gryfderau yn eich sefydliad.

### Grŵp 1: pobl sy'n gweithio gyda dinasyddion

Mae angen i'r bobl yn y grŵp hwn ddeall pam mae dull seiliedig ar gryfderau yn well i fodel diffyg neu "beth sy'n bod".

Dylen nhw wybod ysbryd ac egwyddorion arferion sy'n seiliedig ar gryfderau a disgrifio buddion y ffordd hon o weithio.

### Darganfyddwch y sgiliau a awgrymir ar gyfer pobl yn y grŵp hwn

## Grŵp 2: goruchwylwyr a rheolwyr

Dylai'r bobl yn y grŵp hwn fod yn gyfarwydd â dulliau seiliedig ar gryfderau.

Dylen nhw wybod sut i oruchwylio mewn ffordd sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'w cydweithwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi.

Dylen nhw fod wedi gwneud popeth mewn grŵp 1.

## Darganfyddwch y sgiliau a awgrymir ar gyfer pobl yn y grŵp hwn

## Grŵp 3: arweinwyr a chomisiynwyr

Dylai pobl yn y grŵp hwn fod yn gyfarwydd â dulliau seiliedig ar gryfderau.

Dylen nhw wybod sut i wella, mesur a monitro ansawdd ymarfer yn eu sefydliad.

Mae'n ddefnyddiol i bobl yn y grŵp hwn fod yn gyfarwydd â'r wybodaeth a'r sgiliau rydyn nhw wedi'u hamlinellu ar gyfer grwpiau 1 a 2.

## Darganfyddwch y sgiliau a awgrymir ar gyfer pobl yn y grŵp hwn